WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 10 Medi 2018

Teleffoni a Rhwydweithiau

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod, dyddiedig 30 Awst 2018, pan ofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â theleffoni a rhwydweithiau.

Rydym yn dal peth gwybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad ynghylch y wybodaeth y gofynnwyd amdani ac rwyf wedi'i nodi isod.

Teleffoni (C1 – C10)

Darparir yr holl systemau teleffoni ar hyn o bryd o dan un contract gydag Interoute, a ddechreuodd ar 17 Gorffennaf 2018 ac a fydd yn weithredol am ddwy flynedd. Mae opsiynau i adnewyddu dwywaith am gyfnod o 12 mis bob tro, gan ddod i uchafswm o bedair blynedd.

Mae'r contract ar gyfer datrysiad Skype lletyol. Mae hefyd yn cynnwys prif gysylltiad SIP i switsh ffôn etifeddol yn yr adeilad, i hwyluso symud ein defnyddwyr o'r switsh etifeddol i'r datrysiad Skype lletyol.

Mae'r contract yn cwmpasu rhifau a 'llinellau' 'deialu uniongyrchol' ar gyfer 335 o ddefnyddwyr. Elfen sefydlog y tâl misol yw £3,865.50 yn ogystal ag amcangyfrif o £248 y mis ar gyfer taliadau am alwadau.

Band eang / WAN (C11 – C20)

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru y canlynol:

- llinellau DSL band eang sefydlog mewn 19 o leoliadau gwahanol sydd i gyd yn llinellau band eang BT Business. Mae gan bob un ohonynt ei gontract treigl ei hun, mae pob un y tu allan i isafswm tymor y contract, a gellir eu canslo gyda 30 diwrnod o rybudd. £30 yw gwariant cyffredinol y mis ar gyfer pob llinell.
- cylchedau sefydlog o ffeibrau sy'n cysylltu pedwar lleoliad, gan gynnwys porthiad rhyngrwyd, trwy gontract Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA), a gyflawnir yn bresennol gan BT. Mae'r contractau ar gyfer y llinellau ym mhob lleoliad y tu allan i'w hisafswm tymor a gellir eu canslo gyda 90 diwrnod o rybudd. £23,134 yw'r gwariant blynyddol ar draws y contractau PSBA hyn.
- cysylltiad ffeibr ychwanegol â'r rhyngrwyd mewn un lleoliad a ddarperir gan Virgin Media Business. Mae hwn yn gontract tair blynedd o fis Mawrth 2018 sy'n costio £4,764 bob blwyddyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau o ran sut rwyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth